**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

28 Tachwedd 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad: ymchwiliad deallusrwydd artiffisial ac economi Cymru**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Mae datblygiadau deallusrwydd artiffisial (DA) yn gynyddol bwysig i bob agwedd ar ein bywyd. Mae'n faes sy'n datblygu ar garlam ac yn rhwym o newid yn sylfaenol sut y byddwn ni'n cyfathrebu â'n gilydd a'r byd o'n cwmpas ac sut bydd gwasanaethau yn cael eu darparu. Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf yn natblygiadau DA heddiw ac yn y dyfodol yn gwbl greiddiol i gynyddu'r cyfleoedd i'w defnyddio a'i chadw'n iaith sy'n berthnasol i gymdeithas fodern.

Prif amcan ein gwaith ni yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Un o'r ffyrdd rydym yn cyflawni hyn yw drwy gydweithio â sefydliadau cyhoeddus i gynyddu eu gwasanaethau Cymraeg. Rhan allweddol o hyn yw sicrhau fod gan weithlu'r sefydliadau hyn y capasiti i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae DA eisoes yn cael dylanwad ar sut mae sefydliadau yn darparu gwahanol wasanaethau ac ar ddulliau o weithio. Mae'n amlwg y bydd y dylanwad hwn yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol ac mae'n rhwym o gael effaith sylweddol ar fyd gwaith ac ar anghenion sgiliau gweithlu'r dyfodol. Er enghraifft, mae DA eisoes yn cael ei ddefnyddio i greu cynnwys, i hwyluso cyfieithu, i ddarparu gwasanaethau awtomatig ac i gynyddu effeithlonrwydd gweithwyr mewn ystod o ffyrdd. Os bydd y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiadau DA o'r cychwyn cyntaf, yna mae potensial mawr i hynny hwyluso'n sylweddol ein gwaith ni a sefydliadau cyhoeddus Cymru o gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, wrth gwrs.

Un o brif nodau strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru (y Llywodraeth), *Cymraeg 2050*, yw sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol. Er mwyn

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cyflawni'r nod hwn, ymrwyma'r strategaeth i *'[w]eddnewid y tirwedd digidol Cymraeg, gan roi pwyslais arbennig ar dechnolegau iaith'* (t. 60). Yng nghyd-destun yr uchelgais yma, mae'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg, a gyhoeddwyd yn 2018, wedi bod yn ddull effeithiol o sicrhau ffocws ac atebolrwydd yn y maes deinamig hwn. Mae'r cynllun wedi dirwyn i ben bellach a'r Llywodraeth newydd gynnal galwad am wybodaeth i ganfod pa fath o dechnoleg fyddai'n helpu cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn meddwl y bydd canfyddiadau'r ymarferiad hwn yn berthnasol iawn i'ch ymchwiliad, ac anogwn chi i drafod â'r Llywodraeth er mwyn dysgu o'r hyn y maen nhw wedi ei ganfod yn sgil y gwaith.

Yn ein hymateb ni i'r ymarferiad, rydym yn crynhoi yr hyn ddywedodd sefydliadau Cymru wrthym mewn cyfres o seminarau yn gynharach eleni. Pwrpas y seminarau oedd deall llwyddiannau, heriau ac arferion da ym maes technoleg a'r Gymraeg. Yng nghyd-destun DA dywedodd y sefydliadau:

- Bod mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o DA i ddarparu, neu hwyluso darparu, gwasanaethau cyhoeddus.
- Adnabuwyd nad yw'n bosibl defnyddio DA mewn rhai sefyllfaoedd, gan nad yw'r dechnoleg yn galluogi defnyddio'r Gymraeg, ac felly ddim yn cydymffurfio â dyletswyddau iaith sefydliadau. Er enghraifft, mae ein gwaith monitro wedi amlygu enghreifftiau lle nad yw chwiliwr ar wefannau yn gweithio mor hwylus yn y Gymraeg a lle roedd defnydd o gyfieithu peirianyddol yn gwneud y Gymraeg yn anoddach i'w deall.
- Mae pryder gwirioneddol fod y maes hwn yn datblygu mor gyflym nad oes modd rhagweld beth fydd yn dod nesaf. Mae hefyd pryder y bydd y Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl ac yn cael ei gweld yn amherthnasol os nad yw'n cael ei chynnwys yn y datblygiadau hyn.
- Mynegwyd y pryderon mwyaf mewn perthynas â'r maes addysg. Mae DA yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn y sector hwn. Rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth yn Gymraeg yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn Saesneg rhag tanseilio gwerth y Gymraeg fel cyfrwng addysg.
- Mae sefydliadau yn dymuno arloesi yn y maes hwn i gynllunio gwasanaethau, ond mae angen rhagor o arweiniad cadarn arnynt.
- Amlygwyd heriau wrth geisio cynllunio a dylunio gwasanaethau sydd yn defnyddio DA gan fod diffyg data am arferion ac ymddygiad defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Nid yw'r angen i gydymffurfio â dyletswyddau iaith yn gorfod golygu nad yw'n bosibl cynnig y gwasanaethau drwy gyfrwng technoleg a DA. Mae DA yn cynnig cyfleoedd newydd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i gefnogi sefydliadau wrth iddynt ddarparu gwasanaethau. Fel y rheoleiddiwr dros yr iaith Gymraeg, rydym wedi datgan ein hanogaeth i sefydliadau weithredu dulliau arloesol ym maes DA i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Ond mae'r rhestr uchod yn awgrymu bod llawer o rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn galluogi sefydliadau i wireddu hynny. Gan gydnabod yr heriau yma,

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

rydym yn derbyn bod angen rhoi cyfle i sefydliadau arbrofi â dulliau newydd o weithredu drwy ddefnyddio DA. Gellir darllen am enghraifft dda o hyn ar waith yn ein hastudiaeth arfer da am brofiadau Canolfan y Mileniwm yn symud i ddefnyddio dulliau sgwrsio ar-lein dwyieithog, neu 'sgwrsfot'.

Wrth i ddefnydd DA gynyddu, mae'n anochel bydd angen i'n dull rheoleiddio ni esblygu yn ogystal. Rydym wedi ymrwymo i weithredu dull o gyd-reoleiddio gyda sefydliadau cyhoeddus, sy'n golygu ein bod yn cydnabod y buddion cyfunol o gyd-ddeall a rheoli unrhyw risgiau posibl i gydymffurfiaeth wrth i dechnoleg esblygu ac arloesi. Byddwn felly yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall yn well goblygiadau technoleg ar gyfer y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Fel rhan o'r ymdrech yma byddwn yn ystyried sut y gallwn ni gefnogi sefydliadau wrth iddynt dreialu ffyrdd newydd o weithio cyn eu defnyddio yn ehangach. Bydd y gwaith yma'n darparu sail gadarn wrth i ni ddatblygu safbwynt polisi ar reoleiddio DA mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod.

Maes o law bydd angen edrych ar addasrwydd y dyletswyddau ieithyddol sy'n deillio o safonau'r Gymraeg i faes technoleg DA. Dylai safonau'r Gymraeg adlewyrchu natur gwasanaethau cyhoeddus yng ngoleuni datblygiad DA. Mae diffyg hyblygrwydd y broses bresennol o bennu safonau (drwy reoliadau) yn creu risg na fydd hynny'n digwydd mewn modd amserol, a bod hynny o bosibl yn golygu bylchau am gyfnod. Mae hwn yn fater y byddwn yn trafod â'r Llywodraeth, sy'n gyfrifol am baratoi'r safonau.

Yn ogystal â rheoleiddio dyletswyddau iaith y sector gyhoeddus yng Nghymru, rydym yn gweithio gyda'r sector breifat a thrydydd sector er mwyn hybu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Drwy'r gwaith hwnnw rydym yn gallu gweld bod DA yn cynnig cyfleoedd i wella gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Enghraifft benodol o hyn fyddai banciau a chymdeithasau tai yn defnyddio DA i ddatblygu apiau fyddai yn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg. Byddai datblygiadau o'r math yma yn bositif, ac i'w croesawu, ond mae'n rhaid bod yn wyliadwrus o'r risgiau sy'n bodoli o gynnig gwasanaeth israddol yn y Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o wasanaeth sy'n darparu technoleg DA sy'n cyfieithu gwefannau lle nad oes modd golygu camgymeriadau a gwallau ieithyddol. Mae'n hollbwysig fod DA yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu, nid eu disodli.

I grynhoi, rydym yn gweld datblygiadau DA yn gyfle mawr i ehangu a gwella gwasanaethau Cymraeg ym mhob sector. Rhaid sicrhau bod technoleg ar gyfer y Gymraeg yn symud ar yr un raddfa â'r Saesneg er mwyn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. I wireddu hynny mae'n hollbwysig galluogi sefydliadau i ddatblygu ac arloesi. Mae gennym ni rôl i'w chwarae i sicrhau ein bod yn cynnal sgyrsiau agored ac adeiladol gyda sefydliadau wrth iddyn nhw arbrofi. Wrth i ni ddatblygu ein polisi ar reoleiddio DA â'r Gymraeg, byddwn yn gosod allan sut y byddwn yn annog sefydliadau i gymryd mantais o'r dechnoleg, tra hefyd yn rheoli'r risgiau sy'n bodoli. Bydd hefyd angen ymdrechion ar draws nifer o sefydliadau a sectorau i ddatrys rhai o'r rhwystrau systemig sy'n atal datblygiadau DA i gynnig

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

gwasanaethau Cymraeg. Mae bwriad Llywodraeth Cymru i gynllunio camau nesaf y Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn gam hollbwysig yn y cyd-destun hwn.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymgynghoriad, ac rwy’n hapus i fy swyddogion gwrdd â chi i drafod ymhellach os bydd angen.

Yr eiddoch yn gywir

Efa Gruffudd Jones

**Comisiynydd y Gymraeg**